

Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion Canllawiau a Chategoriau

Dyddiad cau | Dydd 1 Mawrth 2022

Gwobrau Dysgu
Oedolion 2022

Ysbrydoli!
Inspire!

Adult Learning
Awards 2022

newid dy stori...

L&W SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Beth yw'r ysbrydoliaeth! Gwobrau Dysgu Oedolion?

Mae dysgu gydol oes o fudd i bawb. Mae ganddo'r grym i newid bywydau.

Mae Gwobrau Ysbrydoli! yn dathlu pobl, sefydliadau a phrosiectau sydd wedi profi grym trawsnewidiol dysgu.

Trefnir y gwobrau hyn gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.

Cynhelir y seremoni wobrwyo fel rhan o'r [Wythnos Addysg Oedolion](#).

Ysbrydolwch ni!

Ysbrydolwch ni drwy wneud enwebiad. Rydym yn edrych am unigolion, prosiectau a sefydliadau y bydd eu llwyddiant yn dysgu yn ysbrydoli eraill i ddychwelyd i ddysgu neu fynd ati i ddysgu – pobl sydd wedi gwella eu bywydau a/neu fywydau pobl eraill ac wedi cael profiad cadarnhaol neu newid bywyd o addysg oedolion.

Categoriâu Gwobrau 2022

- Sgiliau Gwaith
- Oedolyn Ifanc
- Newid Bywyd a Chynnydd
- Heneiddio'n Dda
- Dechrau Arni – Dysgu Cymraeg
- Gorffennol Gwahanol: Rhannu Dyfodol
- Sgiliau Hanfodol Bywyd
- Cymru Egnïol
- Cymru ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol
- Gwobr Hywel Francis am Effaith Cymunedol
- Gwneuthurwyr Newid yn y Gweithle

Canllawiau ar gyflwyno eich enwebiad – darllenwch yn ofalus os gwelwch yn dda

- Mae cynigion yn rhad ac am ddim ac ar gael i sefydliadau ac unigolion sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru
- Gall dysgu fod ag achrediad neu heb achrediad a digwydd mewn unrhyw leoliad, o'r gweithle i ystafell ddosbarth, yn y cartref neu yn y gymuned
- Gall unrhyw un 16 oed neu drosodd enwebu/cael eu henwebu ar gyfer Gwobr Ysbrydoli!, gweler y canllawiau ar bob categori

- Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn ymroddedig i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i wella mynediad i addysg i bob grŵp. Croesawn enwebiadau o bob cefndir a gyda phob math gwahanol o brofiadau bywyd a galluoedd.
- Rhaid i geisiadau ar gyfer y categorïau unigol gael eu henwebu gan berson arall – gallai hyn fod yn gyfaill, mentor, cydweithiwr, aelod o'r teulu neu gyflogwr sy'n adnabod yr unigolyn a enwebir yn dda.
- Dylai cynigion ar gyfer y categorïau prosiect/sefydliad gael eu hysgrifennu gan arweinydd tîm neu brosiect a'u cymeradwyo gan uwch reolwr/canolwr sy'n adnabod y ddarpariaeth yn dda. Rydym hefyd yn croesawu datganiadau gan ddysgwyr/gweithwyr cyflogedig sy'n ymwneud â'r prosiect/sefydliad i gefnogi'r enwebiad.
- Caiff eich cais ei farnu ar yr wybodaeth a roddwch yn eich cais felly gofynnir i chi wneud yn siŵr eich bod yn darllen y meini prawf islaw ar gyfer categorïau Gwobrau Ysbrydoli! i helpu gyda hyn a chynnwys cymaint o fanylion ag sy'n bosibl yn eich datganiad.
- Mae'n rhaid llenwi datganiadau'r enwebai ac enwebydd. Edrychwch ar ein canllawiau ar ['sut i gyflwyno ffurflen enwebu lwyddiannus'](#) i'ch helpu gyda'ch ffurflen.
- **Newydd ar gyfer 2022** – gallwch gyflwyno eich datganiadau enwebu drwy bwt fideo byr o ddim mwy na 3 munud. Dylid nodi y bydd yn dal i fod angen i chi lenwi adrannau 1 a 3 yn y [ffurflen enwebu](#). Darllenwch ein canllawiau ar [sut i wneud a chyflwyno ffilm cyn dechrau arni](#).

Cofiwch gyflwyno erbyn y dyddiad cau:

Dydd Mawrth 1 Mawrth 2022

Sut mae'r broses ddethol yn gweithio?

- Bydd panel annibynnol o feirniaid o'r sector dysgu, sgiliau a chyfryngau yn dewis enillwyr gwobrau y categorïau.
- Gellir cysylltu eto â'r sawl sydd ar y rhestr fer cyn cyfarfod y panel dethol terfynol i gael mwy o wybodaeth i gefnogi eu henwebiad.
- Hoffem i unrhyw enwebiad ar gyfer Gwobrau Ysbrydoli! fod yn gatalydd ar gyfer dathlu straeon addysg oedolion. Byddem yn annog unrhyw un sy'n enwebu ar gyfer y gwobrau i ddefnyddio'r broses i ddathlu pawb a enwebwyd gyda seremonïau gwobr lleol a rhanbarthol ac i ymuno â gŵyl yr Wythnos Addysg Oedolion i wneud hyn.
- Caiff straeon pob enwebiad a ddewisir fel enillwyr gwobrau eu rhannu drwy'r wasg a'r cyfryngau – bydd hyn yn cynnwys ffilmio a datganiadau i'r wasg.

- Hysbysir pawb a enwebodd enillydd gwobr Ysbrydoli! erbyn diwedd mis Mawrth pan roddir manylion y seremoni wobrwyo.

Cyflwyno eich enwebiad – mae tair ffordd i wneud hyn

E-bost – anfon eich [ffurflen wedi ei llenwi](#) drwy e-bost at: inspire@learningandwork.org.uk

Ar-lein – anfon eich enwebiad [drwy ein ffurflen ar-lein](#) (i'w llenwi i gyd mewn un tro, argymhellwn eich bod yn ysgrifennu eich datganiadau yn [y ffurflen enwebu](#) cyn dechrau).

Ffilm – anfon eich datganiad enwebiad drwy bwt fideo byr o 3 munud. Llenwi adrannau 1 a 3 yn [y ffurflen enwebu](#), gwneud a lanlwytho eich pwt fideo ar YouTube fel dolen *Heb ei rhestru neu Preifat* – anfonwch yr enwebiad a hefyd y ddolen fideo at: inspire@learningandwork.org.uk

Categoriâu Gwobrau Ysbrydoli! 2022

Sgiliau Gwaith

I lawer o bobl, y cymhelliant i ddatblygu eu sgiliau yw gwella eu rhagolygon gwaith, i gael mynediad i waith am y tro cyntaf neu ar ôl cyfnod hir o anweithgaredd economaidd. Mae gwaith da yn rhoi cyfleoedd i barhau i ddysgu a datblygu sgiliau yn y gweithle, gan arwain at gynnydd a chyflogaeth cynaliadwy.

Mae'r wobwr hon yn cydnabod unigolyn a all ddangos penderfyniad eithriadol i wella eu cyflogadwyedd drwy ddysgu ac a all arddangos y rôl a fu gan ddysgu wrth sicrhau swydd **neu** y dysgu oedd yn gysylltiedig i sicrhau cynnydd yn y gwaith.

[Daniel Jones](#) enillydd gwobr 2021
[Chloe Young](#) enillydd gwobr 2020
[Thomas Ferriday](#) enillydd gwobr 2019

Oedolyn Ifanc

Nid yw'r profiad cyntaf o addysg bob amser yn gadarnhaol i bawb ond mae llawer o bobl ifanc yn dychwelyd i addysg ôl-orfodol oherwydd eu bod eisiau gwneud newid cadarnhaol ac adeiladu dyfodol gwell. Efallai na fydd rhai pobl ifanc wedi medru cymryd rhan lawn yn yr ysgol oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu efallai bod ffactorau eraill wedi ymyrryd ar eu bywydau.

Bydd enillydd y wobwr hon yn berson a ddangosodd ymrwymiad gwirioneddol i'w taith ddysgu eu hunain, ac sy'n un i gadw golwg arnynt ar gyfer y dyfodol!

Mae'r wobwr ar agor i unrhyw ddysgwr 16-25 oed (rydym yn rhoi croeso arbennig i enwebiadau ar ran pobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl ifanc sydd wedi gadael gofal a gofalwyr ifanc).

[Wilnelia De Jesus](#) enillydd gwobr 2021
[Alisha Morgan](#) enillydd gwobr 2020
[Owen Roberts](#) enillydd gwobr 2019
[Jimama Ansumana](#) enillydd gwobr 2017

Newid Bywyd a Chynnydd

Gwyddom fod dysgu yn creu cyfleoedd i bobl gamu ymlaen mewn bywyd, gwaith ac adref. Weithiau gall fod yn anodd cadw cymhelliant ac ymroddiad i ddysgu, ac mae llawer o bobl yn wynebu rhwystrau sylweddol. Wrth i'r boblogaeth dyfu a heneiddio a thechnoleg newydd yn datblygu, rydym i gyd yn gweithio am fwy o amser, yn newid gyrfaoedd yn amlach ac yn dysgu sgiliau newydd ar hyd ein bywydau.

Mae'r wobwr hon yn cydnabod oedolyn sydd wedi symud ymlaen gyda'u dysgu, efallai yn erbyn y ffactorau, drwy wahanol gyfnodau, efallai i brifysgol neu eu swydd ddelfrydol. Bydd enillydd y wobwr hon yn rhywun sydd wirioneddol wedi gwirioni a ffoli ar ddysgu. Gall hyn fod yn rhywun sydd wedi newid eu bywyd, llwybr gyrfa neu fynd i'r afael â heriau iechyd drwy ddysgu.

Bydd enillydd y wobwr hon yn dangos nad yw hi byth yn rhy hwyr am ail gyfle neu gyfeiriad neu ddechrau newydd!

[Emma Williams](#) enillydd gwobr 2020

[John Spence](#) enillydd gwobr 2018

[Emily Harding](#) enillydd gwobr 2018

[Rose Probert](#) enillydd gwobr 2016

Sgiliau Hanfodol a Bywyd

Mae sgiliau llythrennedd, rhifedd, digidol, gallu ariannol, llythrennedd iechyd a dinasyddiaeth yn ganolog i ragolygon swyddi a gyrfaoedd pobl a'r gallu i fod yn weithgar a chymryd rhan yn eu cymunedau. Mae newidiadau economaidd a chymdeithasol a datblygiadau mewn technoleg yn cynyddu eu pwysigrwydd.

Bydd enillydd y wobwr hon yn dangos effaith meithrin sgiliau hanfodol a'r trawsnewid y gall hynny ei gael. Gall hyn fod yn cynyddu hyder, mynediad i waith/dilyniant gwaith, cefnogi perthynas deuluol, y gallu i gysylltu mwy gyda gwasanaethau cyhoeddus a rhyngweithio cymdeithasol.

[Clare Palmer](#) enillydd gwobr 2021

Heneiddio'n Dda

Mae dysgu pan mae pobl yn hŷn yn gwneud cyfraniad sylweddol i drechu unigrwydd, cadw mewn cysylltiad a chadw ffordd actif o fyw.

Mae'r wobwr hon yn cydnabod gwerth parhau i ddysgu ac ennill sgiliau newydd i oedran hŷn. Bydd yn dangos y cyfraniad a wnaiff llawer o bobl hŷn i ddysgu gydol oes.

Dylai enillydd y wobwr ddangos pam eu bod wedi parhau i ddysgu neu gymryd rhan mewn dysgu pan oeddent yn hŷn, gallant fod yn weithgar wrth gynnal dysgu a drefnir ganddynt eu hunain yn eu cymuned neu fod yn trosglwyddo eu sgiliau ar draws cenedlaethau.

Mae'r wobwr hon yn agored i ddysgwyr dros 60 oed.

[Phyllis Gregory](#) enillydd gwobr 2021

[Ralph Handscomb](#) enillydd gwobr 2020

Dechrau Arni – Dechreuwr Cymraeg

Yr uchelgais yng Nghymru yw creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ar gyfer oedolion, mae cyfleoedd i ddysgu ar-lein, drwy ddsbarth cymunedol neu yn y gweithle.

Mae'r wobwr hon yn cydnabod unigolion sydd wedi dechrau dysgu Cymraeg drwy ddilyn cwrs Dysgu Cymraeg ar lefel Mynediad neu Sylfaen. Nid ydym yn disgwyl i'r enillydd fod wedi meistrolï'r iaith yn llwyr; fodd bynnag, byddem yn hoffi i ymgeiswyr fod wedi dangos ymrwymiad i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg ac i ddefnyddio'r iaith gyda'u teulu, yn eu cymuned neu weithle.

[Liz Day](#) enillydd gwobr 2021
[Josh Osbourne](#) enillydd gwobr 2021
[Joseff Gnagbo](#) enillydd gwobr 2020
[Rhiannon Norfolk](#) enillydd gwobr 2019

Gorffennol Gwahanol: Rhannu Dyfodol

Mae gan Gymru dreftadaeth ddiwylliannol falch ac amrywiol a hanes hir o groesawu a chynnig lloches i ffoaduriaid a rhai a orfodwyd i ymfudo.

Bydd y wobr hon yn cydnabod cyfraniad y rhai a ddewisodd wneud bywydau newydd yma. Rydym yn edrych am unigolyn sydd wedi cael mynediad i ddysgu ac wedi datblygu eu sgiliau, gan eu harwain ymlaen i fwy o ddysgu, cyflogaeth neu wirfoddoli.

[Fatma Al-Nahdy](#) enillydd gwobr 2021
[Chawan Ali](#) enillydd gwobr 2020
[Tarek Zou Alghena](#) – enillydd gwobr 2019

Cymru Egniol (NEWYDD ar gyfer 2022)

Bob blwyddyn mae cannoedd o oedolion ledled Cymru yn ymwneud â datblygu eu sgiliau a hynny wedi ei yrru gan angerdd am chwaraeon. Mae cymunedau'n dibynnu ar hyfforddwr, swyddogion a threfnwyr gwirfoddol ar gyfer pob math o weithgareddau chwaraeon llawr gwlad sy'n ennyn diddordeb plant, pobl ifanc ac oedolion.

Bydd y wobr hon yn cydnabod cyfraniad unigolyn sy'n ysbrydoli cariad at chwaraeon yn eu cymunedau ac yn rhoi cyfleoedd i mwy o bobl fod yn egniol. Bydd enillydd y wobr yn dangos y dysgu oedd yn gysylltiedig â llunio eu rôl – gallant fod wedi dilyn llwybr drwy gymwysterau hyfforddi neu wedi datblygu sgiliau i fod yn drefnwyr clwb gwych.

Gwobr Hywel Francis am Effaith Cymunedol

I lawer o bobl, mae'r llwybr yn ôl i ddysgu yn dechrau'n agos gartref, mewn lleoliad yn y gymuned neu fel rhan o brosiect cymunedol. Mae llawer o brosiectau cymunedol yn cydnabod rôl addysg a sgiliau fel galluogydd allweddol fydd yn rhoi'r hyder mae pobl ei angen i lwyddo.

Mae'r wobr hon yn cydnabod effaith prosiect cymunedol sydd wedi llwyddo i ddefnyddio dysgu fel arf allweddol i gael pobl i helpu eu hunain ac eraill. Enillydd y wobr fydd prosiect sy'n gweithio gyda phobl na fyddai fel arall yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol neu anffurfiol, neu sydd angen ail gyfle!

[Stepping Stones Gogledd Cymru](#) enillydd gwobr 2021
[Cynllun Effaith Cymunedol](#) enillydd gwobr 2020
[Rhaglen CHASE](#) enillydd gwobr 2019
[Pêl-droed yn y Gymuned y Rhyf](#) enillydd gwobr 2018

Gwneuthurwyr Newid yn y Gweithle

Mae buddsoddi mewn sgiliau yn y gwaith o fudd i bawb yn y gweithle. Mae uwchsgilio gweithwyr yn gwella cyfathrebu, perthynas waith a chynhyrchiant ac yn gostwng lefelau absenoldeb a chodi ysbryd ymysg staff.

Rydym eisiau cydnabod gwneuthurwyr newid yn y gweithle, sy'n hybu cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu lle gellir dangos yr hyn a gyflawnwyd, y llwyddiant a'r effaith ar unigolion a thimau.

Mae'r wobr yn anelu i ddangos yn glir sut mae'r busnes o fudd i'r sefydliad a'r gweithwyr. Gall ddangos cynhwysiant, arloesedd a modelau arfer da o ddysgu a datblygu; a gyflenwir gan bartneriaethau gweithlu. Gall hyn gynnwys gwella cynnydd gyrfa, cyflwyno cyfleoedd ar gyfer y rhai a all fod wedi cael llai o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau yn y gwaith neu greu partneriaethau sy'n ysbrydoli i gyflawni

amcanion a sicrhau canlyniadau cynaliadwy.

Gall yr enwebiad ganolbwyntio ar brosiect dysgu penodol neu gynllun o fewn gweithle, gall fod yn ddull sefydliad-cyfan (bach neu fawr) i ymgysylltu gyda, datblygu a chefnogi pobl, neu gall fod yn weithgaredd dan arweiniad undebau llafur a/neu bartneriaid eraill tebyg i'r trydydd sector a darparwyr hyfforddiant.

[Prosiect WULF UNISON Cymru](#) enillydd gwobr 2021

[Myfyrwyr Nyrsio y Brifysgol Agored yng Nghymru](#) enillydd gwobr 2021

[Cenedl Ystywyth 2 Chwarae Teg](#) enillydd gwobr 2020

[Tîm Rheoli Gwastraff](#) enillydd gwobr 2019

[Tîm Sgiliau Hanfodol Cyngor Caerdydd](#) enillydd gwobr 2018

Cymru ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol (NEWYDD ar gyfer 2022)

Mae addysg yn hanfodol i ddatblygu dealltwriaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd a rhoi dulliau i unigolion a chymunedau i weithredu, dysgu sgiliau newydd a chanfod datrysiadau i'r heriau lleol a byd-eang sy'n ein hwynebu.

Mae ail-lunio beth a sut y dysgwn fyw mewn ffordd gynaliadwy yn broses ddeinamig. Caiff llwybrau dysgu newydd eu datblygu i ganolbwyntio ar feysydd tebyg i natur, bioamrywiaeth a dulliau mwy cynaliadwy o adeiladu, ffasiwn, seilwaith a theithio.

Rydym eisiau rhoi sylw i brosiectau, mentrau a chynlluniau seiliedig ar sgiliau gwyrdd ar draws Cymru – naill ai drwy gydnabod unigolion/prosiectau neu gymunedau sy'n gweithredu, datblygu llwybrau dysgu ac ysbrydoli eraill.